

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

31/2024

DYDDIAD CYHOEDDI:

08/05/2024



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Adroddiad Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol 2023

Saadiah Hood, Strategic Research and Insight



Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Delweddau gan An Saoghal Droil aig Pol Ploc – CITV / Ffilm wedi'i Goleuo / Cloth Cat, The Great Escape 2023 – BBC Horizons/Gorwelion, Dynion i Fyny – BBC / Boom Cymru / Quay Street Productions, Mr Bewlay – Arddangosfa Cymru Greadigol / Hawlfraint y Goron.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Sophie Roberts

Ymchwilydd Sector

Cymru Greadigol

Yr Adran dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: CymruGreadigol@llyw.cymru

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

ISBN: 978-1-83577-999-6

8 Mai 2024

© Hawlfraint y Goron 2023

<https://www.llyw.cymru/arolwg-diwydiant-cymru-greadigol-2023>

Cynnwys

Tudalen

1.	Prif Ganfyddiadau	2
2.	Cefndir a Methodoleg	4
3.	Proffil busnes	7
4.	Cyflogaeth	10
5.	Dyheadau busnes	11
6.	Sgiliau a recriwtio	16
7.	Cymru Greadigol	21
8.	Sianeli eraill	25
9.	Galluoedd y Gymraeg	26
10.	Goblygiadau ar gyfer Cymru Greadigol	28
11.	Holiadur Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol	30

1. Prif Ganfyddiadau

Trosolwg o'r arolwg

Cwblhaodd 639 o ymatebwyr o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru yr arolwg, gyda 27% o'r diwydiant cyhoeddi, 26% o'r sectorau cerddoriaeth a digidol, a 21% o'r diwydiant sgrin. Ymhlith yr ymatebwyr roedd:

- 41% o gyflogwyr/ cyfarwyddwyr/ perchnogion
- 24% yn hunangyflogedig
- 21% o weithwyr
- 13% o weithwyr llawrydd
- 18% yn rhugl yn y Gymraeg

Mae'r ymchwil yn ymdrin â sampl amrywiol, gan gynnwys cymysgedd o ran cenedl, rhanbarthau Cymru, siaradwyr Cymraeg a phobl anabl.

Blaenoriaethau Ôl-Covid

Yn 2023, mae diwydiannau creadigol Cymru yn addasu i flaenoriaethau ôl-Covid. Ymhlith y meysydd allweddol y mae:

- Proffidioldeb (47% o'i gymharu â 54% yn 2022)
- Rhoi hwb i farchnata ac ymwybyddiaeth brand (25% o'i gymharu â 26% yn 2022)
- Cynyddu'r gweithlu (12% o'i gymharu â 21% yn 2022)

Roedd 44% o ymatebwyr yn priodoli cynnydd mewn trosiant i fwy o fusnes/argaeledd gwaith, a allai awgrymu rhagolygon cadarnhaol ar gyfer eu gweithgareddau busnes, tra bod 38% yn wynebu gostyngiad oherwydd llai o argaeledd gwaith.

Heriau a chyfleoedd mewn cymorth ariannol

Mae hyder wrth redeg busnesau yn broffidiol yn amrywio (19% yn hyderus iawn, 39% rhywfaint yn hyderus a 8% ddim yn hyderus o gwbl).

Datganodd 80% nad oeddynt wedi derbyn unrhyw gyllid, 20% wedi derbyn grantiau, gyda 8% yn crybwyll grantiau Cymru Greadigol/ Llywodraeth Cymru.

Pryderon sgiliau

Er gwaethaf rhai heriau recriwtio a bylchau sgiliau a adnabuwyd, nid yw'r rhan fwyaf o fusnesau (92%) wedi wynebu problemau cadw staff yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae 69% o weithwyr llawrydd yn canfod swyddi heb anhawster.

Serch hynny, mae'r diwydiant yn wynebu rhai heriau yn ymwneud â bylchau sgiliau (21% o fusnesau a 24% o weithwyr llawrydd), gan bwysleisio'r angen am raglenni cymorth targedig, yn enwedig mewn sgiliau technoleg (32%) a phenodol i'r sector (35%).

Cyfleoedd ar gyfer cynyddu ymgysylltiad

Roedd 61% o ymatebwyr yn ymwybodol o Gymru Greadigol. Ymhlith y meysydd allweddol ar gyfer cymorth yn y dyfodol:

- Cyllid (47%)
- Rhwydweithio (42%)
- Adnoddau/ isadeiledd (23%)

Effeithlonrwydd cyfathrebu

Mae'r arolwg yn datgelu canfyddiadau cymysg o ran effeithlonrwydd cyfathrebu Cymru Greadigol, gyda chyfuniad o 58% yn sgorio'i sianeli cyfathrebu yn gyffredin neu'n uwch.

E-bost yw'r sianel wybodaeth a ffeirir (87%), gyda Facebook a LinkedIn y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig â busnes a ddefnyddir amlaf (60% a 32% yn y drefn honno).

Mae'r gyfradd gofrestru ar gronfa ddata Cyflenwr Cynhyrchu Sgrin Cymru wedi'i seilio ar ymatebion arolwg, sy'n nodi bod 66% o ymatebwyr o'r sector sgrin heb gofrestru.

2. Cefndir a Methodoleg

Beth yw Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol?

Roedd Cymru Greadigol eisiau deall tueddiadau ac anghenion yn niwydiannau creadigol Cymru a rhannu canfyddiadau eu harolwg â'r diwydiant ehangach. Mae'r arolwg blynyddol hwn yn cynnwys cwestiynau am faterion a thueddiadau cyfredol y diwydiant, ynghyd â'r cwestiynau safonol a ofynnir bob blwyddyn.

Dyma'r ail don o ymchwil yn dilyn y waelodlin yn 2022 a fydd yn tynnu sylw at fewnwelediadau cyffredin ar draws y sectorau sy'n cael eu cefnogi'n bennaf gan Gymru Greadigol. Mae hyn yn ei dro yn helpu i hysbysu pa un yw'r ffordd orau i Gymru Greadigol gefnogi sefydliadau ac unigolion yn y dyfodol.

Sut y cafodd yr arolwg ei gynnal?

Comisiynodd Cymru Greadigol Strategic Research and Insight (SRI), asiantaeth annibynnol wedi'i leoli yng Nghaerdydd, i gynnal yr ymchwil hwn. Er mwyn cyfoethogi'r cyfraddau ymateb a chodi ymwybyddiaeth o'r arolwg ymhlith rhanddeiliaid allweddol, defnyddiwyd dau ddull - arolygon ffôn ac arolygon ar-lein.

Roedd yr arolwg ffôn yn targedu diwydiannau creadigol yng Nghymru gan ddefnyddio cronfa ddata a gafwyd gan frocer data cymeradwy.

Darparwyd cyfanswm o 1,594 o fusnesau gan gynnwys:

- Enw busnes
- Cyfeiriad/ cod post
- Rhif ffôn
- Rhif cofrestru cwmnïau
- Nifer o weithwyr (lle fo'n berthnasol)
- Enw cyswllt, rôl/ swydd
- Gweithgaredd busnes
- Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC 2007) a disgrifiad

Drosodd y mae dadansoddiad o nifer y busnesau y cysylltwyd â hwy ar y ffôn fesul pob sector a chyfanswm nifer yr ymatebion a gwblhawyd.

Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein ochr yn ochr â'r arolwg ffôn.

Rhannwyd dolen ar-lein trwy gysylltiadau Cymru Greadigol, a chysylltodd SRI ag unigolion perthnasol i'r sector er mwyn dosbarthu ymhellach. Hyrwyddwyd y ddolen i'r arolwg yn weithredol a'i rhannu trwy sianeli amrywiol, gan ddefnyddio cyrhaeddiad y cysylltiadau hyn i sicrhau cyfranogiad eang ar draws sectorau.

Dull samplu

Roedd y sampl yn cynnwys pedwar rhanbarth Cymru - Gogledd, Canolbarth, De-orllewin a De-ddwyrain. Maint sampl targed oedd 500 o gyfweiliadau, ond rhagorwyd ar hyn, gyda SRI yn cynnal 639 o gyfweiliadau ar y ffôn ac ar-lein gydag unigolion a sefydliadau yn y diwydiannau creadigol trwy gydol misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2023. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol o'r flwyddyn flaenorol, pan gyflawnwyd 344 o ymatebion.

Roedd hyn yn cynnwys busnesau a gweithwyr llawrydd sy'n cynrychioli'r prif sectorau a gefnogir gan Cymru Greadigol, sy'n rhan o ddiffiniad Cymru Greadigol o ddiwydiannau creadigol yng Nghymru.

Sector Cymru Greadigol	Cysylltwyd â diwydiannau creadigol ar y ffôn ¹	Cyfanswm nifer o ymatebion a gwblhawyd		
		Ffôn	Ar-lein	Cyfanswm ymatebwyr
Cerddoriaeth	290	29	136	165
Sgrin	268	82	54	136
Digidol	544	37	128	165
Cyhoeddi	492	30	143	173
Cyfanswm	1,594	178	461	639

Testunau arolwg

Rhoddodd Cymru Greadigol ystod o destunau i SRI yn ymdrin â meysydd megis:

- Proffil busnes
- Cyflogaeth
- Dyheadau busnes
- Sgiliau a recriwtio
- Cymru Greadigol
- Sianeli eraill
- Galluoedd y Gymraeg

Roedd yr holiadur terfynol yn cynnwys 24 o gwestiynau. Mathau o gwestiynau caeedig a ddefnyddiwyd yn fwyaf cyffredin i ganiatáu ar gyfer dadansoddiad meintiol, ond roedd tri ohonynt yn gwestiynau agored, gan roi cyfle i ymatebwyr gynnig mewnwelediadau dyfnach i'r diwydiant.

¹ Data busnes o ddiwydiannau creadigol yng Nghymru, wedi'i gasglu gan frocer data cymeradwy.

Beth sy'n rhan o'r adroddiad hwn?

Nod yr adroddiad yw helpu Cymru Greadigol i gael dealltwriaeth well o gyflwr cyfredol y sector wrth iddynt lywio y tu hwnt i'r pandemig, gan gasglu gwybodaeth a fydd yn cefnogi adferiad y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r isod:

- Prif ganfyddiadau
- Cefndir a methodoleg
- Prif ganfyddiadau
- Goblygiadau ar gyfer Cymru Greadigol

Ynghyd â'r adroddiad hwn, rydym hefyd wedi darparu'r wybodaeth ategol a ganlyn:

- Darperir croesdablu ar gyfer adborth wedi'i feintio ar wahân fesul rhanbarth, sector, a math o fusnes
- Data craidd di-enw yn fformat Excel

Rydym hefyd wedi casglu sylwadau agored a wnaed yn ystod cyfweiliadau i gefnogi'r canfyddiadau wedi'u meintio.

Rwy'n edrych ar ganran – o ble y daeth?

Daw'r holl niferoedd a chanranau a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn o gyfanswm cyfun yr ymatebwyr o'r arolygon ffôn ac ar-lein. Defnyddiwyd adran gyntaf yr holiadur ar gyfer hidlo a deall y cyfansoddiad busnes; mae'r adroddiad hwn yn trafod canfyddiadau'r prif gwestiynau o C8 i C24.

Mae'n hanfodol bod yn ofalus wrth edrych ar ganlyniadau ar gyfer isgrwpiau llai. Ni dderbyniodd rai cwestiynau ymatebion llawn oherwydd llwybro, gan arwain at feintiau sampl llai. Pan fydd ychydig iawn o ymatebion, rydym yn canolbwyntio ar nifer yr ymatebwyr yn hytrach na'r canran.

Noder wrth gymharu canfyddiadau rhwng 2022 a 2023, dylid ystyried y gwahaniaethau yn y meintiau sampl. Roedd sampl 2023 yn rhagori ar y maint targed, a allai effeithio ar gymhariaethau uniongyrchol â 2022.


3. Proffil busnes

Dosbarthiad sampl

Cychwynnodd yr ymchwil gyda chwestiwn sgrinio (yn yr arolygon ffôn ac ar-lein) i sicrhau mai dim ond ymatebwyr cymwys sy'n gweithio yn sectorau Cymru Greadigol a oedd yn cael eu cynnwys.

Yn arolwg eleni, ail don yr ymchwil, cyflawnwyd dosbarthiad mwy cyfartal o gyfweiliadau ar gyfer pob un o sectorau Cymru Greadigol.

Cyflawnodd yr ymchwil hefyd ledaeniad da o ymatebwyr yn ddaearyddol, sy'n gyffredinol gynrychioliadol o ddosbarthiad rhanbarthol poblogaeth Cymru. Dengys y darlun ledaeniad y cyfweiliadau a gynhaliwyd fesul is-sector a rhanbarth.



Sector	Ymateb	Nifer yn gyflogedig ²
Cerddoriaeth	165	8,800
Sgrin	136	6,200
Digidol	165	7,400
Cyhoeddi	173	11,000

Rhanbarth	Ymateb	Nifer yn gyflogedig ³
Gogledd Cymru	114	698,400
Canolbarth Cymru	61	205,000
De-ddwyrain Cymru	337	1,530,000
De-orllewin Cymru	127	702,000

Nodweddion busnes

Wrth archwilio'r nodweddion busnes, mae Caerdydd yn amlygu ei hun fel hwb, gyda 26% o fusnesau wedi'u lleoli yno. Ymhellach, mae perchnogion busnes a chyfarwyddwyr yn cynrychioli 41% o ymatebwyr, gan dynnu sylw at bresenoldeb entrepreneuraidd sylweddol.

Mae'r mwyafrif (73%) wedi bod yn masnachu ers dros ddegawd, gan ddangos sefydlogrwydd yn y diwydiant. Mae'r strwythurau cyfreithiol yn amrywio, gyda:

- 37% yn gwmnïau cyfyngedig preifat
- 35% yn unig berchnogion
- 55% yn ficro-fusnesau gyda 1-9 o weithwyr

² Ffynhonnell: [Ceisiadau ystadegol ad-hoc: 6 i 17 Tachwedd 2023 | LLYW.CYMRU](#)

³ Ffynhonnell: [Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn](#), Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r ymchwil hwn yn datgelu agweddau amrywiaeth pwysig mewn rhannau o'r gweithlu creadigol ac yn cynnig cipolwg i'w demograffig cyfredol. Mae'r tablau a ganlyn yn dangos lledaeniad y cyfweliadau a gynhaliwyd.

Yn gryno, mae 63% yn ddyinion, 34% yn fenywod, a byddai'n well gan 2% beidio â nodi. Wrth edrych ar ethnigrwydd, yn bennaf roedd yr ymatebwyr yn dweud eu bod yn wyn (95%). Dengys cenedligrwydd bod dros hanner (57%) yn ystyried eu hunain yn Gymry, a 29% yn Brydeinig neu'n Wyddelod.

Proffiliau fesul rhanbarth

Statws cyflogaeth	Cyfanswm	Rhanbarth			
		Gogledd	Canolbarth	De-ddwyrain	De-orllewin
Rwy'n hunangyflogedig	152 (24%)	29 (25%)	14 (23%)	67 (2%)	42 (33%)
Rwy'n weithiwr llawrydd	86 (13%)	11 (1%)	1 (2%)	54 (16%)	20 (16%)
Gweithiwr yn y cwmni ar hyn o bryd	136 (21%)	23 (2%)	15 (25%)	69 (2%)	29 (23%)
Cyflogwr/ cyfarwyddwr/ perchennog	265 (41%)	51 (45%)	31 (51%)	147 (44%)	36 (28%)

Busnes wedi cychwyn masnachu	Cyfanswm	Rhanbarth			
		Gogledd	Canolbarth	De-ddwyrain	De-orllewin
Yn y 2 flynedd ddiwethaf	29 (5%)	6 (5%)	2 (3%)	20 (6%)	1 (1%)
2-5 mlynedd yn ôl	67 (1%)	13 (11%)	6 (1%)	35 (1%)	13 (1%)
6-10 mlynedd yn ôl	78 (12%)	13 (11%)	5 (8%)	49 (15%)	11 (9%)
Dros 10 mlynedd yn ôl	465 (73%)	82 (72%)	48 (79%)	233 (69%)	102 (8%)

Statws cyfreithiol y busnes	Cyfanswm	Rhanbarth			
		Gogledd	Canolbarth	De-ddwyrain	De-orllewin
Unig berchennog/ masnachwr	225 (35%)	37 (32%)	15 (25%)	112 (33%)	61 (48%)
Cwmni cyfyngedig preifat, cyfyngedig trwy gyfranddaliadau (CYF)	235 (37%)	46 (4%)	27 (44%)	125 (37%)	37 (29%)
Cwmni preifat cyfyngedig trwy warant	18 (3%)	4 (4%)	2 (3%)	12 (4%)	-
Partneriaeth	26 (4%)	8 (7%)	3 (5%)	11 (3%)	4 (3%)
Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig	62 (1%)	10 (9%)	4 (7%)	43 (13%)	5 (4%)
Sefydliad Corfforedig Elusennol	30 (5%)	2 (2%)	7 (11%)	14 (4%)	7 (6%)
Arall	43 (7%)	7 (6%)	3 (5%)	20 (6%)	13 (1%)

Ethnigrwydd yr ymatebydd	Cyfanswm	Rhanbarth			
		Gogledd	Canolbarth	De-ddwyrain	De-orllewin
Gwyn	604 (95%)	107 (94%)	59 (97%)	316 (94%)	122 (96%)
Grwpiau ethnig Cymysg/Lluosog	8 (1%)	1 (1%)	-	6 (2%)	1 (1%)
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	6 (1%)	2 (2%)	-	4 (1%)	-
Du / Du Prydeinig	1 (0%))	-	-	-	1 (1%)
Arall	5 (1%)	1 (1%)	-	3 (1%)	1 (1%)
Wedi gwrthod	15 (2%)	3 (3%)	2 (3%)	8 (2%)	2 (2%)

Proffiliau fesul sector

Statws cyflogaeth	Cyfanswm	Sector			
		Cerddoriaeth	Sgrin	Digidol	Cyhoeddi
Rwy'n hunangyflogedig	152 (24%)	50 (3%)	29 (21%)	30 (18%)	43 (25%)
Rwy'n weithiwr llawrydd	86 (13%)	32 (19%)	42 (31%)	8 (5%)	4 (2%)
Gweithiwr yn y cwmni ar hyn o bryd	136 (21%)	34 (21%)	23 (17%)	23 (14%)	56 (32%)
Cyflogwr/ cyfarwyddwr/ perchennog	265 (41%)	49 (3%)	42 (31%)	104 (63%)	70 (4%)

Busnes wedi cychwyn masnachu	Cyfanswm	Sector			
		Cerddoriaeth	Sgrin	Digidol	Cyhoeddi
Yn y 2 flynedd ddiwethaf	29 (5%)	6 (5%)	2 (3%)	20 (6%)	1 (1%)
2-5 mlynedd yn ôl	67 (1%)	13 (11%)	6 (1%)	35 (1%)	13 (1%)
6-10 mlynedd yn ôl	78 (12%)	13 (11%)	5 (8%)	49 (15%)	11 (9%)
Dros 10 mlynedd yn ôl	465 (73%)	82 (72%)	48 (79%)	233 (69%)	102 (8%)

Statws cyfreithiol y busnes	Cyfanswm		Sector		
		Cerddoriaeth	Sgrin	Digidol	Cyhoeddi
Unig berchennog/ masnachwr	225 (35%)	75 (45%)	55 (4%)	45 (27%)	50 (29%)
Cwmni cyfyngedig preifat, cyfyngedig trwy gyfranddaliadau (CYF)	235 (37%)	36 (22%)	51 (38%)	74 (45%)	74 (43%)
Cwmni preifat cyfyngedig trwy warant	18 (3%)	7 (4%)	5 (4%)	-	6 (3%)
Partneriaeth	26 (4%)	4 (2%)	2 (1%)	8 (5%)	12 (7%)
Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig	62 (1%)	13 (8%)	3 (2%)	34 (21%)	12 (7%)
Sefydliad Corfforedig Elusennol	30 (5%)	16 (1%)	4 (3%)	1 (1%)	9 (5%)
Arall	43 (7%)	14 (8%)	16 (12%)	3 (2%)	10 (6%)

Ethnigrwydd yr ymatebydd	Cyfanswm		Sector		
		Cerddoriaeth	Sgrin	Digidol	Cyhoeddi
Gwyn	604 (95%)	160 (97%)	123 (9%)	159 (96%)	162 (94%)
Grwpiau ethnig Cymysg/Lluosog	8 (1%)	1 (1%)	4 (3%)	1 (1%)	2 (1%)
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	6 (1%)	1 (1%)	2 (1%)	1 (1%)	2 (1%)
Du / Du Prydeinig	1 (0%)	-	-	1 (1%)	-
Arall	5 (1%)	2 (1%)	3 (2%)	-	-
Wedi gwrthod	15 (2%)	1 (1%)	4 (3%)	3 (2%)	7 (4%)

4. Cyflogaeth


Trosolwg o'r gweithlu a arolygwyd

4.1 Mae'r tabl a ganlyn yn cynrychioli data ar nifer o bobl a gyflogwyd o fewn y flwyddyn ddiwethaf, fel yr adroddwyd gan berchnogion busnes. Sylwer y cyfeiriwyd y cwestiwn hwn at berchnogion busnes yn unig i gasglu mewnwelediad i'w cyfansoddiad gweithlu penodol a'u maint.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, faint o bobl yr oedd eich busnes yn eu cyflogi sy'n...?				
Nifer y staff	1-9 o bobl	10-49 o bobl	50-249 o bobl	250+ o bobl
Staff llawn amser	208	12	3	
Staff rhan amser	69	4	-	-
Gweithwyr llawrydd	54	26	5	2
Prentisiaid	10	-	-	-
Hyfforddeion	14	-	-	-
Gwirfoddolwyr	14	8	1	-

5. Dyheadau busnes

C9 "Beth yw eich blaenoriaethau busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod? Dewiswch eich tri ateb gorau yn unig."



Y 3 dyhead busnes uchaf fesul rhanbarth yw:

Gogledd (114)	Canolbarth (61)	De-ddwyrain (337)	De-orllewin (127)
Cynyddu proffidioldeb (48%)	Gwella cyfleoedd marchnata (39%)	Cynyddu proffidioldeb (52%)	Cynyddu proffidioldeb (39%)
Gwella cyfleoedd marchnata (22%)	Cynyddu proffidioldeb (34%)	Gwella cyfleoedd marchnata (23%)	Gwella cyfleoedd marchnata (24%)
Rhwydweithio (16%)	Bod yn fwy cynaliadwy (18%)	Bod yn fwy cynaliadwy (20%)	Rhwydweithio (16%)

Y 3 dyhead busnes uchaf fesul sector yw:

Cerddoriaeth (165)	Sgrin (136)	Digidol (165)	Cyhoeddi (173)
Cynyddu proffidioldeb (42%)	Cynyddu proffidioldeb (55%)	Cynyddu proffidioldeb (48%)	Cynyddu proffidioldeb (45%)
Gwella cyfleoedd marchnata (23%)	Rhwydweithio (33%)	Gwella cyfleoedd marchnata (24%)	Gwella cyfleoedd marchnata (31%)
Bod yn fwy cynaliadwy (19%)	Tyfu'r gweithlu (18%)	Bod yn fwy cynaliadwy (18%)	Cynnig ystod ehangach o wasanaethau (16%)

Proffidioldeb yn parhau yn brif ffocws


5.1 Mae diwydiannau creadigol yng Nghymru yn canolbwyntio'n bennaf ar gynyddu proffidioldeb (47%) a gwella cyfleoedd marchnata (25%) yn y flwyddyn i ddod. Mae'r flaenoriaeth hon yn gyson ar draws rhanbarthau, ac eithrio canolbarth Cymru, lle mae'r ffocws yn newid mwy

tuag at wella marchnata. Wrth gymharu arolygon 2022 a 2023, mae'n amlwg bod cynyddu proffidioldeb yn parhau yn brif flaenoriaeth i fusnesau. Yn 2022, roedd 54% yn ei ystyried yn brif nod, ac yna tyfu'r gweithlu (21%) a chynaliadwyedd (19%). Yn ddi-ddorol, mae'r ffocws ar gynyddu'r gweithlu wedi gostwng o 21% yn 2022 i 12% yn 2023.

Y 3 prif ddyhead busnes yn ôl math o fusnes yw:			
Hunangyflogedig (152)	Gweithiwr llawrydd (86)	Gweithiwr (136)	Cyflogwr (265)
Cynyddu proffidioldeb (45%)	Cynyddu proffidioldeb (48%)	Cynyddu proffidioldeb (40%)	Cynyddu proffidioldeb (52%)
Gwella cyfleoedd marchnata (23%)	Rhwydweithio (36%)	Gwella cyfleoedd marchnata (30%)	Gwella cyfleoedd marchnata (28%)
Rhwydweithio (16%)	Cynnig ystod eang o wasanaethau (15%)	Bod yn fwy cynaliadwy (23%)	Tyfu'r gweithlu (18%)

5.2 Yn ychwanegol at y prif flaenoriaethau a adnabuwyd, fe wnaeth nifer sylweddol o ymatebwyr ddarparu ymatebion 'eraill', gan dynnu sylw at ystod amrywiol o amcanion a heriau busnes. Roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys nodau megis canfod ffyrdd newydd o roi hwb i referniw, gwella sgiliau digidol, a sicrhau bod safonau cyfreithiol ac ansawdd yn cael eu bodloni. Mae'r rhain yn ychydig o'r opsiynau ychwanegol y gellid eu cynnwys yn y don nesaf o arolygon.

C10 "O'i gymharu â'ch blwyddyn ariannol ddiwethaf, a yw eich trosiant wedi cynyddu neu leihau?"




Llai o newid trosiant yn 2023

- 5.3 Yn 2023, gwelodd fusnesau lai o newid mewn trosiant o'i gymharu â 2022. Ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiweddaraf, gwelodd 25% gynnydd, 27% wedi gweld gostyngiad, a 48% heb adrodd ar newid. Yn 2022, profodd 35% gynnydd, 28% wedi cael gostyngiad, a 37% heb unrhyw newid. Er bod llai o fusnesau wedi adrodd newidiadau mewn trosiant rhwng 2022 a 2023, roedd llawer yn dal i brofi newidiadau sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- 5.4 Wrth archwilio canlyniadau ymatebwyr a adroddodd newidiadau mewn trosiant yn 2023 a'u croesdablu ar sail lefel y newid, canfuwyd ymhlith y rheini a adroddodd ostyngiad (170 o ymatebwyr) roedd:
- 57 wedi profi gostyngiad o 1-20%
 - 34 wedi profi gostyngiad o 21-40%
 - 33 wedi profi gostyngiad o 41-60%
 - 5 wedi profi gostyngiad o 61-80%
 - 9 wedi profi gostyngiad o 81-60%
 - 4 wedi profi gostyngiad o fwy na 100%
 - Nid oedd 28 yn gwybod
- 5.5 Yn yr un modd, ymhlith y rheini yn adrodd cynydd (160 o ymatebwyr), roedd:
- 92 wedi cael cynnydd o 1-20%
 - 21 wedi cael cynnydd o 21-40%
 - 6 wedi cael cynnydd o 41-60%
 - 1 wedi cael cynnydd o 61-80%
 - 2 wedi cael cynnydd o 81-60%
 - 7 wedi cael cynnydd o fwy na 100%
 - Nid oedd 30 yn gwybod
- 5.6 Mae arolwg 2023 yn dangos bod busnes/argaeledd gwaith cynyddol (44%) wedi codi ymwybyddiaeth o'r busnes/ gwaith (27%), a'r effeithiau yn dilyn pandemig Covid-19 (19%) yw'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at gynnydd mewn trosiant.
- 5.7 Ar y llaw arall, mae costau byw cynyddol (45%), gostyngiad mewn argaeledd busnes/ gwaith (38%) ac effeithiau yn deillio o bandemig Covid-19 (31%) yn gyfranwyr mawr i drosiant gostyngol. Mae ffactorau eraill, megis newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr, yn chwarae rolau hynod yn y ddwy senario.

Gwahaniaethau fesul sector

C11 "Pa mor hyderus ydych chi am redeg eich busnes yn broffidiol yn y flwyddyn ariannol nesaf?"




Ychydig o newid mewn hyder yn 2023

- 5.8 Wrth gymharu hyder ar draws sectorau, roedd amrywiadau yn amlwg, gyda'r sector digidol yn dangos yr hyder mwyaf am redeg busnes proffidiol a'r sector cerddoriaeth y lleiaf.
- 5.9 O gymharu 2023 â 2022, mae newid amlwg yn lefelau hyder. Yn 2023, mynegodd mwy o ymatebwyr hyder uchel iawn, wrth i lai deimlo ychydig yn hyderus. Serch hynny, roedd cyfanswm canran yr ymatebwyr yn teimlo dim hyder neu lai o hyder yn parhau'n gyson rhwng y ddwy flynedd.

Gwahaniaethau fesul math o fusnes

C11 "Pa mor hyderus ydych chi am redeg eich busnes yn broffidiol yn y flwyddyn ariannol nesaf?"



Hyder cyflogwr yn rhagori ar weithwyr llawrydd o ran rhagolwg busnes

5.10 Mae gwahaniaethau mewn lefelau hyder ar draws mathau o fusnesau yn dangos rhagolygon amrywiol. Fe wnaeth unigolion hunangyflogedig fynegi rhywfaint o hyder (38%), wrth i weithwyr llawrydd a gweithwyr adrodd lefelau tebyg o rywffaint o hyder (49%). I'r gwrthwyneb, cyflogwyr, cyfarwyddwyr, neu berchnogion sy'n arddangos yr hyder uchaf wrth redeg busnes proffidiol, gyda 26% yn adrodd yn hyderus iawn.

Cymorth cyllid a ffynonellau

5.11 Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr (80%) yn adrodd na dderbynion nhw unrhyw gymorth cyllid yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Ymhlith y rheini a dderbyniodd gyllid, mae grantiau Cymru Greadigol/ Llywodraeth Cymru (8%) a chyllid Cyngor Celfyddydau Cymru (6%) ymhlith y ffynonellau a grybwyllir amlaf. Ymhlith y ffynonellau a grybwyllir lleiaf aml y mae grantiau cyfraddau busnes, grantiau cyngor, grantiau hunangyflogaeth ac opsiynau ariannu eraill.

6. Sgiliau a recriwtio


6.1 Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae busnesau wedi defnyddio dulliau recriwtio amrywiol, gan gynnwys:

- Ffynonellau ar-lein (20%)
- Lledaenu'r gair (18%)
- Cyfeirlyfrau llawrydd, ac asiantaethau (4% yr un)

6.2 Adroddodd cyfran sylweddol (63%) dim gweithgareddau recriwtio.


Pa anawsterau recriwtio y mae busnesau wedi'u hwynebu?

C14a "Ar gyfer busnesau: A ydych wedi cael anawsterau gyda chadw staff yn ystod y 12 mis diwethaf?"



6.3 Wrth edrych ar heriau cadw staff, roedd 8% o fusnesau yn gyffredinol wedi profi anawsterau wrth gadw gweithiwr, ac roedd y duedd hon yn debyg ar draws sectorau.

C14b "Ar gyfer gweithwyr llawrydd: Ydych chi wedi cael trafferth dod o hyd i swyddi ar gyfer rhai rolau?"



Sylfaen: 86

Gweithwyr llawrydd yn wynebu heriau swydd uwch na busnesau


6.4 Gwynebodd canran uwch o weithwyr llawrydd (31%) anawsterau wrth ganfod swyddi ar gyfer rolau penodol o'i gymharu â busnesau (8%) yn profi heriau wrth gadw staff. Yn ychwanegol, o fewn y sector llawrydd, adroddodd gweithwyr llawrydd yn y sectorau sgrin a digidol fwy o anawsterau (52% a 38%, yn y drefn honno) o'i gymharu â gweithwyr llawrydd yn y sector Cerddoriaeth (6%). Ni adroddodd pedwar gweithiwr llawrydd yn y sector Cyhoeddi ar unrhyw heriau wrth ddod o hyd i swyddi ar gyfer rolau penodol. Mae'n bwysig nodi bod yr arsylwad hwn wedi'i seilio ar faint sampl bach o bedwar ymatebydd, gydag ymatebion isel tebyg yn y sector digidol.

Y 3 phrif rôl heriol i'w llanw yn y sector yw:

Cerddoriaeth (20)	Sgrin (83)	Digidol (57)	Cyhoeddi (51)
<i>Peiriannydd Sain</i>	<i>Ymchwilydd</i>	<i>Dylunydd/ Artist</i>	<i>Marchnata (Cyfarwyddwr/ Rheolwr/ Cynorthwydd)</i>
<i>Staff Bar</i>	<i>Rhedwr/ Cynorthwydd</i>	<i>Rhaglennydd</i>	<i>Dylunydd</i>
<i>Peirianyddion Golau</i>	<i>Cynhyrchu</i>	<i>Arbenigwr UX</i>	<i>Golygydd (gan gynnwys Golygydd Cynorthwyol/ Golygydd Copi/ Prawf Ddarllenydd)</i>
	<i>Golygydd</i>		

Ffactorau sy'n cyfrannu at heriau recriwtio ar gyfer busnesau

C15b "Pam ydych chi'n meddwl mae hyn? Ticiwch hyd at dri ateb"



Sylfaen: 90

Holwyd C15b i'r rheini sy'n profi anawsterau recriwtio

Anawsterau parhaus wrth gaffael sgiliau a chadw talent

- 6.5 Er gwaethaf gostyngiad o 18% yn arolwg 2022, mae 16% o fusnesau yn parhau i brofi anawsterau wrth lenwi rolau penodol, am resymau a nodir uchod.
- 6.6 Mae ffactorau eraill hefyd yn cyfrannu at yr heriau hyn, gan gynnwys pryderon am lesiant, sefydlogrwydd ariannol, enw da yn y diwydiant, diogelwch swyddi, cyfleoedd addysgol cyfyngedig, diffyg amodau gwaith hyblyg, ynghyd ag effaith datblygiadau technolegol ar ofynion sgiliau a'r angen am hyfforddiant neu uwchsgilio parhaus. Tynnodd ymatebwyr sylw at ffactorau sy'n dylanwadu ar eu profiadau o fewn y diwydiant creadigol. Ymhlith y dyfyniadau uniongyrchol yn adlewyrchu eu safbwyntiau y mae:

Ffactorau llesiant

"Mae Covid wedi golygu nad yw pobl eisiau mynd yn ôl i'r gwaith."

"Amgylchiadau personol"

Sefydlogrwydd ariannol

"Anodd cystadlu â rhai o asiantaethau Llundain sy'n caniatáu mwy o weithio o bell a lefelau uwch o gyflog."

"Mae adain dechnegol y diwydiant creadigol yn crebachu oherwydd amodau gweithio a chyflog gwael."

Canfyddiad o'r diwydiant

"Dim anogaeth gan y Llywodraeth i addysgu ein traddodiadau hynafol nac unrhyw beth arall yn Gymraeg."

"Dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen."

Diogelwch swyddi

"Cwmnïau o Loegr yn symud mewn dros dro a chynnig cyflogau gwell."

"Anghenion busnes yn mynd a dod gan ddibynnu ar y cynhyrchiad ar y pryd neu adeg y flwyddyn, felly dim rheswm penodol."


Cyrsiau addysgol cyfyngedig

"Diffyg cyflenwad o beiranyddion AV."

"Dim digon o fasnach."

Pa fylchau mewn sgiliau y mae busnesau yn eu hwynebu?

C16c "Beth ydyn nhw?Ticiwch hyd at dri ateb"



Holwyd C16c i'r rheini sydd â bwch sgiliau (busnesau a gweithwyr llawrydd)

Sgiliau penodol i'r sector a thechnoleg yn parhau yn fater i rai

6.7 Mae sgiliau a hyfforddiant yn parhau yn fater i rai yn y diwydiant. Mae gan 21% o fusnesau ddiffyg sgiliau penodol, tra bod 24% o weithwyr llawrydd angen hyfforddiant penodol.

6.8 Y meysydd mwyaf cyffredin lle'r oedd bylchau mewn sgiliau oedd:


- Sgiliau penodol i'r sector (35%)
- Technoleg (32%)
- Gallu'r Gymraeg (26%)

6.9 Mae'r arolwg hefyd yn gofyn am fuddsoddiad busnesau wrth hyfforddi gweithwyr a datblygu sgiliau. Adroddodd bron i draean o fusnesau (29%) eu bod yn cynnig hyfforddiant a rhaglenni meithrin sgiliau i'w gweithwyr. Serch hynny, nid oedd y mwyafrif (71%) yn cynnig cyfleoedd o'r fath.

7. Cymru Greadigol

Sut y gall Cymru Greadigol gefnogi'r diwydiant?

C19 "Sut gall Cymru Greadigol eich cefnogi yn y dyfodol? Ticiwch bob un sy'n berthnasol"



Blaenoriaethau yn 2023 yn debyg i 2022

- 7.1 Yn arolwg 2023, roedd 61% o ymatebwyr wedi clywed am Cymru Greadigol, sy'n awgrymu ymwybyddiaeth sylweddol o fewn y boblogaeth a arolygwyd. Mae'r ymwybyddiaeth ar ei huchaf ymhlith y sector sgrin a digidol (76% a 65% yn y drefn honno) ond hefyd yn uwch gyda gweithwyr llawrydd a chyflogwyr/ cyfarwyddwyr/ perchnogion y cwmni (65% a 62% yn y drefn honno).
- 7.2 Pan ofynnwyd sut y gallai Cymru Greadigol gefnogi'r sectorau yn well, yn yr un modd ag arolwg 2022, y tri maes uchaf sy'n dod i'r amlwg yw cyllid, rhwydweithio, a chymorth a chyngor busnes. Yn yr arolwg hwn, mae cyllid yn parhau yn flaenoriaeth uchaf i bron i hanner (47%) gan dynnu sylw at yr angen am gymorth ariannol o fewn y sector creadigol. Mae rhwydweithio yn agwedd hanfodol arall ôl-Covid gyda 42% yn mynegi dymuniad am gymorth wrth feithrin cysylltiadau. Yn ychwanegol, mae gan 30% ddiddordeb mewn cymorth a chyngor busnes.
- 7.3 Disgynnodd tua thraean (33%) o'r ymatebwyr i'r categori 'arall', gan ddangos amryw anghenion o fewn y diwydiant creadigol. Ymhlith rhai pwyntiau allweddol o'r ymatebion 'arall' oedd busnesau a gweithwyr llawrydd yn ceisio cymorth a chydweithio mewn meysydd megis adnabod ochr dechnegol y maes creadigol, hyrwyddo a hysbysebu, cymorth cymunedol a diwylliannol, ac mae rhai yn crybwyll diffyg ymwybyddiaeth o Cymru Greadigol a'i gwasanaethau.

Cydnabod sgiliau technegol

- 7.4 Tynnodd rai ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cydnabod ochr dechnegol y diwydiannau creadigol. Maen nhw'n pwysleisio'r angen am rwydwaith o fusnesau a gweithwyr llawrydd i gynnal a chyfoethogi diwydiannau creadigol Cymru dros y tymor hwy.

"Cydnabod rhan technegol y diwydiannau creadigol a chydabod bod angen ecosystem gyfan o fusnesau a gweithwyr llawrydd."

"Datblygu llwybr ar gyfer prentisiaethau i'r diwydiant cymorth AV / Technegol Greadigol. Mae cymwysterau prifysgol yn dda i ddim ac ond yn llethu graddedigion â dyled a dim sgiliau ymarferol."

Ymroi i hyrwyddo a hysbysebu

- 7.5 Mynegodd rai ymatebwyr yr angen i ymroi i hyrwyddo a hysbysu, a hynny'n lleol ac ar gyfer cynhyrchiadau sy'n dod i mewn. Maen nhw'n crybwyll gwell arwyddion, cymorth ariannol ar gyfer creu llyfrynnau, a hysbysebion ar gyfer orielau a murluniau.

"Hysbysebu a hyrwyddo mewn digwyddiadau, arwyddion gwell, arian i gynhyrchu llyfryn am yr oriel gydag enghreifftiau o'r gwaith dan sylw."

"Ymroi i hyrwyddo i gynhyrchiadau ar y gweill y gweithwyr a'r sgiliau sydd ar gael yn lleol."

Cymorth marchnata a chyfryngau cymdeithasol

- 7.6 Thema gyffredin yw'r angen am gymorth gyda marchnata a chyfryngau cymdeithasol. Mae rhai ymatebwyr yn ceisio arweiniad ar feithrin presenoldeb ar-lein, tra bod eraill eisiau help gyda llwyfannau megis Twitter, Instagram a LinkedIn.

"Help gyda marchnata, yn enwedig cymorth gyda chyfryngau cymdeithasol gan fy mod yn ddyslecsig."

"Cymorth gyda Twitter, Instagram, a LinkedIn. Mae gennyf bob un ond dydw i ddim yn gwybod sut i'w defnyddio."

Eiriolaeth a hyrwyddo rhyngwladol

